



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Tîm y Bil Cynllunio,
Yr Is-adran Gynllunio,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF103NQ

(E-bost)
planconsultations-d@wales.gsi.gov.uk

26 Chwefror 2014

Annwyl Syr/Fadam

Cynllunio Cadarnhaol – Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru. Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r cynigion i newid y system gynllunio yng Nghymru fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad Cynllunio Cadarnhaol. Mae ein hymateb i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad wedi'u nodi yn Atodiad 1 sydd wedi'i atodi.

Rydym yn croesawu'r cyfle i fynegi barn ar y cynigion hyn sydd, ynghyd â'r Biliau arfaethedig yn ymwneud â'r Amgylchedd a Chenedlaethau'r Dyfodol, yn gyfle unwaith mewn cenedlaeth i wella'r fframwaith statudol yn sylweddol ar gyfer rheoli a chynllunio adnoddau amgylcheddol a naturiol yng Nghymru. O ganlyniad, dylai'r ymateb hwn gael ei ystyried ochr yn ochr â'n hymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar yr Amgylchedd, lle yr aethom ati i nodi pwysigrwydd natur ategol Bil yr Amgylchedd, Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Cynllun Morol er mwyn sicrhau agwedd gydgysylltiedig at yr heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd.

Mae'r heriau hyn yn cynnwys effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, disbyddu a dirywiad adnoddau naturiol gan gynnwys y gostyngiad cyson mewn bioamrywiaeth, a'r anghydraddoldeb a welir o ran mynediad pobl Cymru i fanteision yr amgylchedd.

Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, mae angen ystyried cyd-destun y prosesau ehangach sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Mae'r system gynllunio yn ffordd bwysig o sicrhau canlyniadau cyffredin o fewn cyd-destun gofodol. Rydym yn croesawu'r dyhead i ailsefydlu cynllunio fel ffordd o reoli newid er budd y cyhoedd a chefnogi datblygiad cynaliadwy drwy ei gyfeirio at leoliadau priodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu Amcanion Strategol ar gyfer Cyngor ar Gynllunio, a gymeradwywyd gan ein Bwrdd ar 18 Rhagfyr. Maent yn adlewyrchu'r dull

gweithredu cyffredinol a nodwyd yn y ddogfen 'Cynllunio Cadarnhaol'. Maent yn pwysleisio'r angen i symud tuag at ddull o weithredu sy'n galluogi ac sy'n seiliedig ar atebion, gan weithio mewn ffordd strategol a thrwy ymgysylltu'n gynnar â datblygwyr a phenderfynwyr er mwyn galluogi'r datblygiad priodol yn y lleoliad priodol sy'n parchu cyfyngiadau amgylcheddol h.y. mabwysiadu'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem. Mae copi o'n Hamcanion Strategol wedi'i atodi yn Atodiad 2 er gwybodaeth.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfraniad allweddol i'w wneud at gefnogi cynigion 'Cynllunio Cadarnhaol' drwy ddarparu tystiolaeth ac arweiniad, ac yn rhinwedd ein swyddogaeth gyson fel ymgynghorai statudol sy'n darparu cyngor ar effaith datblygiadau ar yr amgylchedd ac atebion. Rydym hefyd yn rhoi gwybodaeth i ddatblygwyr a phenderfynwyr i sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn.

Mae ein hymateb yn nodi pwysigrwydd:

- Integreiddio deddfwriaeth, polisiau a chynlluniau;
- Orlhain cynllunio a chaniatâd a thrwyddedau amgylcheddol cysylltiedig;
- Integreiddio canlyniadau er mwyn manteisio'n llawn ar ddatblygiad;
- Ymgysylltu strategol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a chynlluniau strategol eraill er mwyn darparu tystiolaeth a chyngor i gyfeirio datblygiadau a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol i'r lleoliadau mwyaf addas;
- Ymgysylltu cynnar yn y broses o reoli datblygiadau – yn y cyfnod o ddewis safleoedd;
- Eglurder ynglŷn â chyfraniad arfaethedig ymgynghoreion statudol ac eraill at y broses gynllunio yn y dyfodol.

Yn olaf, er ein bod yn cefnogi'r newid cyffredinol tuag at broses gynllunio a chaniatâd strategol, integredig, wedi'i blaen-lwytho sy'n galluogi, mae angen i ni ddeall yn well y goblygiadau o safbwynt adnoddau i Cyfoeth Naturiol Cymru yn sgil y cynigion hyn. Mae angen ystyried fforddiadwyedd ochr yn ochr â'r dyhead amdanynt, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio rhwng y dulliau gweithredu presennol a dulliau'r dyfodol.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru i bennu ystod lawn y cyfrifoldebau newydd hyn, ein swyddogaethau perthnasol, yn enwedig o safbwynt y broses caniatâd cysylltiedig, a sut i'w cyllido er mwyn gweithredu mor effeithiol â phosibl wrth i ni gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Biliau Cynllunio, Amgylchedd a Chenedlaethau'r Dyfodol, a'r Cynllun Morol datblygol.

Rydym hefyd yn awyddus i weithio gyda chi i ddatblygu dulliau gweithredu trawsffiniol, lle mae deddfwriaeth a pholisi yng Nghymru yn asio â'r rhai yn Lloegr, yn enwedig o safbwynt yr agweddau hynny nad ydynt wedi'u datganoli.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu manylion y deddfwriaeth bwysig hon a'r is-ddeddfwriaeth, y polisi a'r canllawiau technegol cysylltiedig.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Yn gywir,

EMYR ROBERTS

Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru

emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria, Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP



ATODIAD 1

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Cynllunio Cadarnhaol – Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru

Hoffem glywed eich barn ar ein cynigion i newid y system gynllunio yng Nghymru. Bydd angen newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau.

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 26/02/2014.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i: planconsultations-d@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch y switsfwrdd ar 0300 0603300 neu 08450103300.

Diogelu Data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion sy'n cael eu trafod yn yr ymgynghoriad. Efallai y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn ei weld hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Bydd hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu eich cyfeiriad gael eu cyhoeddi, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb neu roi tic yn y blwch ar waelod y ffurflen hon. Byddwn yn cuddio'r manylion hyn.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau neu'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad ydym yn credu y bydd hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn galluogi'r cyhoedd i wneud cais i weld gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan nifer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i wybodaeth gael ei hatal mewn rhai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn i weld gwybodaeth sydd wedi'i hatal gennym, byddwn yn penderfynu a fyddwn yn ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio cyhoeddi eu henw a'u cyfeiriad, byddwn yn ystyried y ffaith bwysig hon. Fodd bynnag, efallai bod rhesymau pwysig pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er eu bod wedi gofyn i ni beidio eu cyhoeddi. Byddwn yn cysylltu â'r unigolyn hwnnw ac yn gofyn ei farn cyn y byddwn yn gwneud penderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cynllunio Cadarnhaol – Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng
Nghymru

Dyddiad y cyfnod ymgynghori: 04/12/2013 – 26/02/2014

Enw	Dr Emyr Roberts
Sefydliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfeiriad	
Cyfeiriad e-bost	
Math (<i>dewiswch un o'r canlynol</i>)	Busnesau/ Ymgynghorwyr
	Awdurdod Cynllunio Lleol
	Asiantaeth y Llywodraeth/Sector Cyhoeddus Arall
	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Diddordeb
	Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, cwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, crefyddol, a sefydliadau dielw)
	Arall (grwpiau eraill nad ydynt wedi'u rhestru uchod) neu unigolyn



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Cefnogi Newid mewn Diwylliant

C1 A ydych yn cytuno y bydd cylch gwaith arfaethedig y Gwasanaeth Cyngtori a Gwella Cynllunio yn helpu awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid i wella perfformiad?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu sefydlu'r Gwasanaeth Cyngtori a Gwella Cynllunio. Mae'n ffordd o helpu i gefnogi newid mewn diwylliant a gwella a rheoli perfformiad.

Mae angen iddo ganolbwyntio ar allbynnau a chanlyniadau.

Mae angen i'w gwmpas a'i raglen waith integreiddio elfennau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd o'r gwasanaeth cynllunio yng Nghymru.

Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yng ngrŵp llywio'r Gwasanaeth Cyngtori a Gwella Cynllunio (PAIS) a'r grŵp cyngtori/rhanddeiliaid, a byddai'n gallu rhoi cyngor ar faterion technegol ac anghenion hyfforddi cysylltiedig sy'n berthnasol i'n swyddogaeth a'n cylch gwaith, er enghraifft, rheoli a chynllunio perygl llifogydd, tirwedd, bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i weithio gyda PAIS ar asesu peryglon llifogydd yn benodol. Credwn y byddai PAIS yn ffordd arbennig o effeithiol o ledaenu arferion da a hyfforddiant yn ymwneud ag ystyriaethau cymhleth ond pwysig fel asesu peryglon llifogydd a gweithredu ar sail ecosystemau. Byddai swyddogaeth gydgysylltu a lledaenu PAIS yn arwain at ffordd fwy effeithlon o hysbysu a chefnogi Awdurdodau Cynllunio Lleol na'r dull presennol lle mae CNC yn briffio pob Awdurdod yn unigol.

C2 A ydych yn cytuno y dylid adolygu trefniadau cymorth presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer sector yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Dim sylw

C3 A ydych yn cytuno y dylid paratoi fframweithiau cymwyseddau ar gyfer ymarferwyr cynllunio a chynrychiolwyr etholedig i ddisgrifio'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen er mwyn diwygio'r system gynllunio?

Ydym Nac ydym



Sylwadau:

Mewn egwyddor, mae CNC yn cefnogi'r gwaith o baratoi fframweithiau cymwyseddau ar gyfer ymarferwyr cynllunio a chynrychiolwyr etholedig. Dylai'r fframwaith cymhwysedd ymgorffori sgiliau a gwybodaeth amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Ar gyfer ymarferwyr cynllunio, mae fframwaith cymhwysedd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru yn sylfaen dda ar gyfer y fframwaith cymhwysedd arfaethedig. Mae angen ystyried a ddylai'r fframwaith fod yn berthnasol hefyd i ymarferwyr y tu allan i'r maes cynllunio sy'n ymgysylltu â'r broses reoli cynllunio a datblygu, ac yn rhoi cyngor arni. Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r fframweithiau, gan ddefnyddio ein harbenigedd a'n gwybodaeth dechnegol ar gyfer amrywiaeth eang o faterion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gofynion y Biliau arfaethedig yn ymwneud â'r Amgylchedd, Treftadaeth a Chenedlaethau'r Dyfodol.

Stiwardiaeth Weithredol

C4 A ydych yn cytuno y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer pennu blaenoriaethau cenedlaethol ac yn hwyluso'r broses o'u cyflawni?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Mae CNC yn croesawu'r cynnig i ddisodli Cynllun Gofodol Cymru gyda Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae'r Fframwaith yn gyfle i gyfeirio datblygiadau a seilwaith strategol cenedlaethol i'r lleoliadau mwyaf priodol. Mae CNC yn nodi ac yn croesawu statws cynllun datblygu'r Fframwaith a'r ffaith y bydd yn cael ei lywio gan Aseiad Amgylcheddol Strategol ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau eglurder, sicrwydd a chysondeb ar draws yr hierarchaeth gynllunio yng Nghymru ac yn golygu na fydd gwrthdaro ac oedi diangen yn deillio o ddatblygiadau amhriodol mewn lleoliadau amhriodol. Mae rhai materion amgylcheddol penodol fel perygl llifogydd yn amlygu eu hunain ar raddfeydd gofodol rhanbarthol neu genedlaethol, dalgylchoedd afonydd mawr a chelloedd proses arfordirol. Mae angen ymdrin â'r rhain ar lefel gynllunio ofodol genedlaethol yn y lle cyntaf er mwyn cael y dylanwad mwyaf effeithiol ar benderfyniadau datblygiadau strategol a lleol.

Bydd angen sicrhau bod buddsoddiad o'r fath mewn datblygiad a seilwaith yn seiliedig ar dystiolaeth amgylcheddol gadarn fel bod cynigion yn cael eu cyfeirio i leoliadau sy'n gallu cyflawni canlyniadau arfaethedig yn yr hirdymor, ac sydd hefyd yn gallu ymdopi â heriau heddiw ac yfory fel effaith y newid yn yr hinsawdd. Bydd angen i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:

-ddiffinio'n glir swyddogaeth y system cynllunio defnydd tir wrth gyflawni canlyniadau cenedlaethol y llywodraeth ac unrhyw nodau hirdymor sy'n deillio o Fil arfaethedig Cenedlaethau'r Dyfodol.



-cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer cyflawni nodau a chanlyniadau datblygu cynaliadwy er mwyn sicrhau economi ac amgylchedd gwydn.

-mynegi'n glir y berthynas rhwng haenau gwahanol cynlluniau a phrosesau.

-mynegi'n glir y berthynas rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r mynegiant gofodol o ddatblygiadau a seilwaith mawr sy'n deillio o gynlluniau a rhaglenni nad ydynt wedi'u datganoli e.e. Datganiadau Polisi Cenedlaethol.

-mynegi'n glir y berthynas rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a chynnig y Polisi Adnoddau Naturiol ar gyfer Bil yr Amgylchedd a rhwng y Fframwaith a'r Cynllun Morol. Dylai Adran 60A o'r Bil Cynllunio (Cymru) wneud darpariaethau i'r Gweinidog roi sylw i, neu ystyried, polisi adnoddau naturiol a'r Cynllun Morol wrth baratoi'r Fframwaith.

-egluro y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn amlinellu mynegiant gofodol o Bolisi Adnoddau Naturiol, gan gynnwys seilwaith gwyrdd a darpariaeth hamdden a mynediad strategol, mesurau amddiffyn rhag llifogydd a mesurau rheoli perygl llifogydd eraill, fel mesurau rheoli dalgylch yr ucheldir ynghyd ag amgylcheddau sydd o dan bwysau a dynodiadau Cenedlaethol a Rhyngwladol pwysig.

-egluro a fydd Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cael eu harwain gan feini prawf neu eu hadlewyrchu ar sail ofodol yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a'u llywio gan Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Pholisi Adnoddau Naturiol.

-nodi'r gofynion allweddol o safbwynt adnoddau naturiol y bydd angen i'r broses o bennu targedau a dyrannu tir yn is yn yr hierarchaeth gynllunio eu hystyried e.e. argaeledd adnoddau dŵr wrth bennu targedau dyrannu tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol.

-sicrhau bod cyfnod yr adolygiad yn cyd-fynd â chyfnod arfaethedig y Polisi Adnoddau Naturiol ac Adrodd ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

Bydd angen i'r cynigion ar gyfer adolygu a chraffu ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gael eu hystyried yn ofalus, yn enwedig os mai'r bwriad yw cynnwys elfennau gofodol y Nodiadau Cyngor Technegol (TANS) presennol, fel TAN 8 a 15, yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i gyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod sut y gallwn helpu i ddarparu sylfaen dystiolaeth gyffredin i lywio'r Polisi Adnoddau Naturiol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

C5 A ydych yn cytuno y dylid integreiddio Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru i greu un ddogfen?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Mae CNC o blaid integreiddio Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru i greu un ddogfen. Bydd hyn yn helpu i sicrhau dull integredig o reoli adnoddau naturiol.

Mae CNC yn nodi'r bwriad i adolygu'r gyfres TAN, a byddai'n croesawu'r cyfle i gyfarfod â Llywodraeth Cymru i drafod goblygiadau posibl cynnwys elfennau



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

gofodol y TANs presennol, fel TAN 8 a 15 er enghraifft, yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Er mwyn helpu i integreiddio'r Cynllun Morol a'r system cynllunio defnydd tir, byddai TAN yn seiliedig ar gylchlythyr drafft Llywodraeth yr Alban, '*Planning Scotland` s Seas - the relationship between the statutory land use planning system and marine planning and licensing*', yn helpu i egluro'r rhyngwyneb rhwng y systemau cynllunio Morol a Defnydd Tir.

C6 A ydych yn cytuno y dylid paratoi cyfres graidd o bolisiau rheoli datblygu i'w cymhwyso'n gyson gan bob awdurdod cynllunio lleol?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Cefnogi mewn egwyddor. Mae'n ddull o sicrhau cysondeb cenedlaethol o safbwynt gofynion polisi a deddfwriaethol penodol yn ymwneud ag adnoddau naturiol allweddol sy'n berthnasol i, er enghraifft, safleoedd Natura 2000, dynodiadau perygl llifogydd a thirwedd cenedlaethol, gan ddarparu sicrwydd ac eglurder cenedlaethol ar gyfer datblygwyr a phenderfynwyr. Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Llywodraeth i baratoi polisiau rheoli datblygiadau craidd sy'n berthnasol i'n swyddogaeth a'n cylch gwaith ac y gellir eu cymhwyso'n gyson ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys swyddogaeth y system cynllunio defnydd tir wrth fabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem a rheoli adnoddau naturiol yn unol â'r hyn a gynigir ar gyfer Bil yr Amgylchedd.

Mae CNC yn nodi'r pwyslais ar Gyngorau Tref a Chymuned yn cyfrannu mwy at y broses ynghyd â'r Cynlluniau Lleoedd arfaethedig.

Byddai canllawiau yn helpu i sefydlu ac egluro eu swyddogaeth ynghyd â statws cynlluniau lleoedd yn y broses o wneud penderfyniadau.

Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y gwaith o ailasesu nifer a chwmpas y TANs, yn enwedig unrhyw newidiadau arfaethedig i TAN5, TAN8, TAN14 a TAN15. Fodd bynnag, rydym yn cynghori'n gryf bod angen cadw TAN penodol a fydd yn rhoi sylw i ddatblygiadau a pherygl llifogydd. Mae penderfyniadau cynllunio strategol a lleol ynglŷn â datblygiadau newydd ac adfywio yn gwneud cyfraniad hanfodol at leihau effeithiau cymdeithasol ac economaidd llifogydd ar gymunedau Cymru. Mae ehangder yr effeithiau hynny (degau o filiynau o bunnoedd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin 2012 a mis Chwefror 2014 yn unig) yn cyfiawnhau TAN penodol yn y dyfodol yn ymwneud â rheoli pob ffynhonnell o lifogydd ac erydu arfordirol yn sgil rhagor o ddigwyddiadau tywydd eithafol sy'n cael eu darogan o ganlyniad i'r newid anochel yn yr hinsawdd.

C7 A ydych yn cytuno y bydd yr hierarchaeth datblygu arfaethedig yn helpu i sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio mewn ffordd gymesur, gan ddibynnu ar eu manteision a'u heffeithiau tebygol?

Ydym Nac ydym



Sylwadau:

Bydd yr hierarchaeth arfaethedig yn darparu fframwaith i alluogi rhanddeiliaid a phenderfynwyr i ganolbwyntio adnoddau mewn ffordd strategol yn gynnar yn y broses o ddatblygu prosiectau er mwyn sicrhau'r datblygiad iawn yn y lle iawn a pharchu capasiti amgylcheddol.

Er mwyn bod yn gyflawn, mae angen i'r ddogfen a'r siart llif gynnwys Gorchmynion Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd, sy'n cael eu caniatáu gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd.

O safbwynt paragraff 4.37 (y pwynt bwled cyntaf), dan rai amgylchiadau dylech fod yn ymwybodol y gall ymgeiswyr gyflwyno lefel benodol o wybodaeth sy'n arwain at gais gennym am ragor o eglurder neu wybodaeth. Dan amgylchiadau o'r fath, mae'n bosibl na fyddwn yn ymwybodol bod angen rhagor o wybodaeth nes bod y gyfran gyntaf o wybodaeth wedi'i chyflwyno. Gall cwblhau cynnig ar gyfer datblygiad fod yn ailadroddol. Er enghraifft, gall ymgeisydd gyflwyno arolwg o rywogaethau sy'n golygu nad oes angen cyflwyno unrhyw beth arall, neu fod angen cyflwyno gwybodaeth â manylion amrywiol am fesurau lliniaru.

O safbwynt paragraff 4.37 (yr ail bwynt bwled), rydym yn croesawu'r cyfle i ni flaenoriaethu ein hadnoddau a'u cyfeirio at y ceisiadau â'r manteision a'r effeithiau mwyaf posibl. Rydym yn nodi'r cyfeiriadau ym mharagraff 4.35 at y lliaws o amcanion yr ydych yn disgwyl i'r system gynllunio eu cyflawni, gan

gynnwys hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Rydym yn cytuno â'r rhain. Fodd bynnag, dylech nodi bod cefnogi ffyniant economaidd, mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd a darparu cartrefi ac amgylchedd o ansawdd da i gyd yn elfennau o ddatblygu cynaliadwy yn y lle cyntaf, fel y nodir ym Mhennod 4 o Bolisi Cynllunio Cymru. Ni ddylid ystyried "Hyrwyddo datblygu cynaliadwy" yn amcan ar wahân.

C8 A ydych yn cytuno â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd a nodir yn Atodiad B?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Rydym yn cefnogi'r categorïau arfaethedig, Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd (Datblygiadau Mawr a Lleol) mewn egwyddor. Fodd bynnag, bydd angen egluro i ba raddau y bydd y categorïau a'r trothwyon yn mynd i'r afael ag effaith datblygiad a all gael effaith niweidiol sylweddol ar fuddiannau o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol cydnabyddedig.

Yn ogystal â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig, bydd angen egluro sut y bydd datblygiadau lleoliadol penodol sy'n cael eu cyflwyno yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, eu llywio gan Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Polisi Adnoddau Naturiol a Chynlluniau Rheoli Adnoddau Naturiol ar Sail Ardal neu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, yn cael eu hadlewyrchu.

Mae drafft ymgyngori Trydydd Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol yr Alban yn fodel defnyddiol i'w ystyried yn y cyswllt hwn.



Atodiad B - mae angen egluro ystyr nwy, nwy naturiol neu CO2.

Paragraff 4.41 - egluro beth a olygir gan ddatblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd fel y cânt eu hamlinellu yn y Polisi Adnoddau Naturiol.

Rydym yn awgrymu y dylid diwygio'r math o gais olaf yn Atodiad B (Gorsafoedd Cynhyrchu) fel a ganlyn: 'Unrhyw beth rhwng 25 megawat a llai na 50 megawat'. Mae'r geiriad presennol yn awgrymu mai Awdurdodau Cynllunio Lleol a fyddai'n penderfynu ar orsafoedd cynhyrchu arfaethedig rhwng 49 a 50 megawat.

C9 A ydych yn cytuno â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau Sylweddol a nodir yn Atodiad B?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Mae'r categorïau arfaethedig, Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd, Mawr a Lleol yn rhesymegol ac rydym yn eu cefnogi mewn egwyddor. Fodd bynnag, bydd angen egluro i ba raddau y bydd y categorïau a'r trothwyon yn mynd i'r afael ag effaith datblygiad a all gael effaith niweidiol sylweddol ar fuddiannau o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol cydnabyddedig. Gall effaith cynigion datblygiadau mawr a lleol hefyd arwain at oblygiadau rhyngwladol a chenedlaethol sylweddol ar gyfer safleoedd / ardaloedd o bwysigrwydd cydnabyddedig. Yn ogystal ag egluro'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig, bydd angen egluro sut y bydd datblygiadau lleoliadol penodol sy'n cael eu cyflwyno yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Strategol, eu llywio gan Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Polisi Adnoddau Naturiol a Chynlluniau Rheoli Adnoddau Naturiol ar Sail Ardal, yn cael eu hadlewyrchu. Mae drafft ymgynghori Trydydd Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol yr Alban yn fodel defnyddiol i'w ystyried yn y cyswllt hwn. Dylai'r categorïau hefyd ystyried datblygu tyrbinau gwynt.

Er mwyn bod yn eglur ac yn gyflawn, dylai trothwyon Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd gael eu hychwanegu fel colofn neu dabl ar wahân mewn dogfennau yn y dyfodol.

Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i gyfarfod er mwyn trafod goblygiadau ymarferol y datganiad bod 'rhaid i ymgynghoreion statudol roi blaenoriaeth i ddatblygiad mawr', yn enwedig o ystyried ein sylwadau uchod ynglŷn â datblygiad sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar fuddiannau o bwysigrwydd cydnabyddedig ac amseroedd ymateb statudol.

Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn yr adolygiad arfaethedig o'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.

C10 A ydych yn cytuno y dylai ceisiadau ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd fod yn orfodol yn destun hysbysiad ac ymgynghoriad cyn ymgeisio?

Ydym Nac ydym



Sylwadau:

Rydym o blaid yr egwyddor o wneud hysbysiad ac ymgynghoriad cyn ymgeisio yn orfodol. Mae hyn yn sicrhau elfen o gysondeb rhwng proses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol a phroses Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd.

Fodd bynnag, mae angen rhagor o wybodaeth am y broses arfaethedig, sydd, rydym yn rhagdybio, yn debyg i'r broses DCO ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd. Yn ogystal, mae angen rhagor o wybodaeth am y manylion sydd eu hangen ar gyfer cadarnhad rhagarweiniol o'r cais cynllunio. Byddai'n well gan CNC ymwneud â'r broses cyn gynted â phosibl er mwyn helpu i lywio'r lleoliad a chynllun a diwyg manwl y datblygiad.

O safbwynt materion datblygiadau a ganiateir a amlinellir yn adran 4.51-4.53, rydym yn pryderu ynglŷn â pherygl llifogydd yn y cyswllt hwn. Mae addasu adeilad masnachol at ddefnydd preswyl yn cynyddu'r perygl o lifogydd yn sylweddol i'r preswylwyr os nad yw'r adeilad wedi'i gynllunio'n ddiogel yn unol â TAN 15. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os yw'r defnydd preswyl ar gyfer grŵp sy'n agored i niwed mewn cymdeithas, e.e. anheddau ar gyfer perthnasau hŷn. Rydym yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gofynion TAN15 yn berthnasol i newidiadau i'r defnydd o adeilad sydd eisoes yn bodoli. Yn ogystal, mae eisoes yn hysbys bod disodli gerddi ag arwynebau caled, anhydraiddd yn cynyddu'n sylweddol y perygl o lifogydd sy'n deillio o ddŵr wyneb a charthffosydd yn gorlifo. Ceir tystiolaeth o hyn ym mhrosiect GlawLif Dŵr Cymru. Dylai'r system gynllunio ganiatáu i Awdurdod Cynllunio Lleol ddynodi ardaloedd sydd wedi'u heithrio o ddatblygiadau a ganiateir am resymau amrywiol, gan gynnwys perygl llifogydd o ganlyniad i effeithiau rhagweladwy'r newid yn yr hinsawdd. Byddai hyn yn sicrhau bod y system gynllunio yn parhau i fod yn ddull effeithiol o atal perygl llifogydd mewn ardaloedd â phroblemau hysbys tra'n parhau i sicrhau bod datblygiad a ganiateir yn mynd rhagddo yn rhywle arall.

Mae CNC yn croesawu ac yn cefnogi'r symud tuag at gydgysylltu, neu olrhain cyfocrog, caniatâd ategol a thrwyddedau datblygu ac amgylcheddol cysylltiedig, a byddai'n croesawu'r cyfle i drafod hyn ymhellach â Llywodraeth Cymru. Byddem hefyd o blaid defnyddio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr ymgeisydd, Llywodraeth Cymru, yr Arolygiaeth Gynllunio a CNC ynglŷn â cheisiadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

C11 A ydych yn cytuno y dylid codi ffi am gyngor cyn ymgeisio ar gyfer ceisiadau arfaethedig am Ddatblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Gall cyngor cyn ymgeisio olygu gwaith sylweddol i CNC, felly rydym yn croesawu'r



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

cynnig hwn mewn egwyddor. Mae CNC yn croesawu ac yn cefnogi'r Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol integredig arfaethedig a'r broses caniatâd cysylltiedig, a byddem yn croesawu'r cyfle i drafod hyn ymhellach â Llywodraeth Cymru.

C12 A ydych yn cytuno mai Arolygiaeth Gynllunio Cymru yw'r corff mwyaf priodol i ymgymryd â'r gwaith o brosesu cais ar gyfer Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Ydym

Byddai'n ddefnyddiol cadarnhau'r broses ar gyfer paratoi Adroddiadau ar yr Effaith Leol er mwyn sicrhau cyfraniad cynnar gan ymgylgoreion statudol fel y gallwn roi cyngor ar amodau priodol a gofynion cyfreithiol ynghyd â'r cydberthynas rhwng prosesau trwyddedu a chaniatáu cysylltiedig ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

C13 A ydych yn cytuno mai dim ond un cylch o ddiwygiadau y dylid ei ganiatáu i gais ar gyfer Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd ar ôl iddo gael ei gofrestru'n ffurfiol?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Ar sail ein profiad o'r trefniadau presennol ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd, rydym yn rhybuddio yn erbyn un cylch o ddiwygiadau i gais ar gyfer Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd. Mae angen hyblygrwydd i drafod yn ystod y broses er mwyn canfod atebion a sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol gorau posibl. Yn aml, rydym yn trafod yn anffurfiol â datblygwyr ceisiadau mawr rhwng y ddau gyfnod lle mae angen cyflwyno gwybodaeth yn ffurfiol, gan ganolbwyntio ar faterion fel perygl llifogydd. Credwn y dylai'r cynigion yn y Bil barhau i ganiatáu trafodaethau o'r fath; dylid sicrhau bod datblygwyr yn gallu parhau i drafod yn anffurfiol â ni rhwng y ddau gyfnod arfaethedig lle gallant gyflwyno gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio neu Weinidogion Cymru. Byddai hyn yn helpu i osgoi canlyniadau nas bwriadwyd. Er enghraifft, byddai datblygwr yn gallu cysylltu â ni i gadarnhau na fydd ailgynllunio safle ar sail cyngor gan eraill yn cael goblygiadau negyddol ar y materion rydym yn darparu cyngor yn eu cylch, fel perygl llifogydd neu rywogaethau a warchodir.

C14 A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer ymdrin â chaniatadau cysylltiedig?

Ydym Nac ydym



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Sylwadau:

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o un broses archwilio ar gyfer caniatadau cysylltiedig. Gall proses integredig osgoi gwrthdaro rhwng cynigion datblygiad a chaniatâd ar wahân e.e. rhwng tyrbinau gwynt a chysylltiadau grid.

Paragraff 4.66: Rydym yn nodi'r darpariaethau yn y Bil (Adran 18, paragraff 62J)

i ymgeisydd wneud cais uniongyrchol i Weinidogion Cymru ar gyfer ceisiadau cysylltiedig. Rydym yn croesawu bwriad y ddarpariaeth hon ac yn credu y byddai'n symleiddio'r systemau cynllunio a chaniatáu ac yn galluogi sylfaen dystiolaeth amgylcheddol gyffredin i lywio'r broses gynllunio a chaniatadau cysylltiedig. Rydym wrthi'n trafod â'r Llywodraeth ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio ar gwmpas caniatadau cysylltiedig, y broses ar gyfer cydgysylltu ac amserlenni i benderfynu caniatadau a swyddogaethau pawb yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r model a ddatblygwyd i gydgyssylltu'r broses ganiatâd ar gyfer Gorsaf Bŵer Hinkley C yn fodel defnyddiol i'w ddilyn.

C15 A ydych yn cytuno y dylai'r broses ar gyfer ystyried y cais ddilyn gweithdrefn debyg i'r weithdrefn a gynigir ar gyfer ceisiadau a gaiff eu galw i mewn ac apelau?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Cytuno - dylai'r gwaith o archwilio Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ddilyn model Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd

C16 A ydych yn cytuno â'r modd y bwriedir rhannu cyfrifoldebau rhwng Gweinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol yn ystod y cam ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Cytuno

C17 A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno datganiad achos a datganiad drafft o dir cyffredin wrth gyflwyno apêl?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Mewn egwyddor, ydym. Fodd bynnag, bydd angen ailystyried yr amserlenni ar gyfer cyflwyno datganiadau apêl, yn enwedig ar gyfer ceisiadau technegol a chymhleth lle mae angen mewnbwn arbenigol a lle mae cysylltiadau a dibyniaethau i'r amserlenni mewmol ar gyfer penderfyniadau partion â diddordeb.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

C18 A ydych yn cytuno mai'r Arolygiaeth Gynllunio ddylai benderfynu sut i ystyried apêl?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Ydym, ar yr amod bod yna feini prawf a phroses glir i benderfynu pa rannau o ymchwiliad neu sylwadau ysgrifenedig sy'n cael eu hystyried.

C19 A ydych yn cytuno na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i gynnwys cais unwaith y bydd apêl wedi'i chyflwyno?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Dylid ceisio ymgysylltu'n gynnar yn y broses er mwyn trafod a datrys problemau a dileu'r angen am apêl. Os nad yw hyn yn bosibl, mae ein profiad o'r broses apêl yn awgrymu y dylai'r datblygwr a'r ymgynghorai statudol barhau i drafod i ddatrys problemau yn ystod y cyfnod ar ôl cyflwyno'r apêl, sy'n arwain yn aml at gytundeb ar atebion/canlyniadau cadarnhaol cyn yr Ymchwiliad. Felly, os yw'r broses o barhau i drafod yn gallu datrys problemau o bosibl, dylai'r broses honno barhau.

C20 A ydych yn cytuno â'r cynnig i Weinidogion Cymru roi proses dyfarnu costau ar waith?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Ydym

C21 A ddylid cyflwyno ffioedd i gwmpasu costau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag apêl?

Dylid Na ddylid

Sylwadau:

Dim sylw

C22 A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno Gwasanaeth Apelau Masnachol?

Ydym Nac ydym



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Sylwadau:
Dim sylw

Gwella Cydweithrediad

C23 A ydych yn cytuno y dylid uno awdurdodau cynllunio lleol i greu unedau mwy?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Mae CNC yn cefnogi'r egwyddor o waith strategol a thrawsffiniol ac yn nodi bod argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn symud y drafodaeth hon yn ei blaen o safbwynt cyflwyno opsiynau ar gyfer uno ym maes llywodraeth leol.

Yn ogystal ag argymhellion Williams, mae angen ystyried sut i gydweithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol er mwyn trefnu cronfa o arbenigedd cyffredin/arbenigwyr technegol ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau cynghori awdurdodau lleol fel bioamrywiaeth, tirwedd, mynediad a threftadaeth adeiledig. Bydd hyn yn datblygu capasiti mewnol ac yn lleihau'r pwysau ar CNC ac ymgynghoreion statudol eraill y disgwylir iddynt ddarparu'r cyngor hwn.

Un model posibl y gellir ei ystyried yw'r strwythurau a'r trefniadau llywodraethu a sefydlwyd i gydgyssylltu a chyflwyno cyd-destun rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau addysg ym maes llywodraeth leol yng Nghymru.

C24 A ydych o'r farn y dylai Awdurdod Parc Cenedlaethol barhau'n gyfrifol am gynllunio yn ei ardal?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Mae'r sylfaen dystiolaeth, Cyflenwi Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau sydd wedi'u Pennu'n Statudol yng Nghymru (Ymgynghorwyr Defnydd Tir, Hydref 2012) a dadansoddiad o'r Dangosfwrdd o Ddangosyddion Perfformiad Cynllunio yn dangos bod Gwasanaeth Cynllunio Awdurdodau Parc Cenedlaetholystal â gwasanaeth awdurdodau cynllunio lleol eraill. Amlygodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yr angen am wasanaethau i adlewyrchu gofynion deddfwriaethol a swyddogaethol uniongyrchol ardal weinyddol ar gyfer Parciau Cenedlaethol. Ni ddaeth i'r casgliad bod dadl gref o blaid trosglwyddo eu swyddogaethau i awdurdodau lleol, ond pwysleisiodd

**bwysigrwydd cydweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.
Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal Adolygiad Llywodraethu o Barciau Cenedlaethol yng Nghymru, gan ddechrau yn yr hydref. Dylid ystyried a ddylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol barhau i fod yn gyfrifol am gynllunio yn eu hardaloedd yng nghyd-destun cyffredinol yr Adolygiad Llywodraethu arfaethedig.**

C25 A ydych yn cytuno mai dim ond mewn rhai ardaloedd penodol y dylid paratoi cynlluniau datblygu strategol?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Mae Argymhellion Williams yn symud y ddatl hon yn ei blaen o safbwynt cyflwyno dewisiadau i uno llywodraeth leol er mwyn creu Awdurdodau Lleol mwy o ran maint a mwy strategol. Bydd yn bwysig egluro goblygiadau posibl yr argymhellion hyn o safbwynt yr angen am Gynlluniau Datblygu Strategol o ystyried y bydd Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer awdurdodau mwy yn fwy strategol eu natur. Bydd angen egluro'r gydbertynas rhwng Cynlluniau Datblygu Strategol a'r dinas-ranbarthau arfaethedig yng Nghymru.

Os yw'r Bil yn cynnwys y cynigion ar gyfer y Cynlluniau Datblygu Strategol arfaethedig, bydd angen i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ddarparu fframwaith strategol digonol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol mewn ardaloedd fel cefn gwlad Cymru sy'n cael eu nodi fel ardaloedd nad oes angen Cynlluniau Datblygu Strategol ar eu cyfer.

Bydd angen ystyried cydgysylltu prosesau ac amserlenni'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, y Cynllun Datblygu Strategol, y Polisi Adnoddau Naturiol, y Cynllun Datblygu Lleol, Cynlluniau Adnoddau Naturiol Seiliedig ar Ardaloedd, Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd, Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Mae paragraff 5.26 o Gynllunio Cadarnhaol yn datgan: 'Caiff CDSau eu llywio gan bolisi cenedlaethol ar adnoddau naturiol a'r dull o reoli adnoddau naturiol ar sail ardaloedd'. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r Bil Cynllunio (Cymru) yn cynnwys gofyniad deddfwriaethol ar gyfer hyn. Er mwyn sicrhau bod Bil Cynllunio (Cymru) a Bil yr Amgylchedd yn cael eu hintegreiddio ac yn ategu'i gilydd, rydym yn argymhell

y dylid diwygio Rheoliad 60G(6) o Fil Cynllunio (Cymru) er mwyn sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhoi sylw i, neu'n ystyried, polisi cenedlaethol ar adnoddau naturiol a dull o reoli adnoddau naturiol sy'n seiliedig ar ardaloedd. Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i gyfarfod â'r Llywodraeth i drafod sut i ddarparu

sylfaen dystiolaeth gyffredin ar gyfer rheoli adnoddau naturiol er mwyn llywio'r cynlluniau a'r prosesau uchod.

C26 A ydych yn cytuno y dylid cyfyngu cwmpas CDSau i'r materion allweddol a nodir ym mharagraff 5.29?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Rydym yn croesawu'r broses o nodi cyfleoedd amgylcheddol strategol fel mater pwysig ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol. O ystyried y cyfleoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lluosog sy'n deillio ohonynt, rydym yn credu y dylid nodi, gwarchod a, lle bo hynny'n briodol, gwella'r seilwaith gwyrdd a glas sy'n strategol bwysig er mwyn ategu darpariaeth seilwaith llwyd cynlluniedig a sicrhau hyfywedd a chadernid hirdymor aneddiadau, seilwaith ac asedau amgylcheddol. Er mwyn integreiddio polisi, bydd angen i'r Cynlluniau Datblygu Strategol gael eu llywio gan y Polisi Adnoddau Naturiol a'i ystyried, ynghyd â'r dull seiliedig ar ardaloedd o reoli adnoddau naturiol. Bydd angen integreiddio tystiolaeth amgylcheddol yn ymwneud â chyfleoedd a rhwystrau mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol a seilwaith gwyrdd.

Gall CNC helpu i gefnogi proses y Cynllun Datblygu Strategol drwy ddarparu data, cyngor a gwybodaeth. Yn benodol, credwn y dylid cynnwys Mesurau Rheoli Perygl Llifogydd yng nghwmpas y Cynlluniau Datblygu Strategol. Er enghraifft, mae coridor yr A55 yn dioddef llifogydd llanw ac afonol. Mae cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol yn gyfle da i gynllunio mewn ffordd strategol a mabwysiadu dull trawsffiniol o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i ddatblygiadau llinellol trawsffiniol, fel seilwaith trafndiaeth. Byddem yn ceisio sicrhau bod y materion a nodwch ym mharagraff 5.29 yn cael eu cynllunio, gan ystyried perygl llifogydd. Er enghraifft, dylai dyraniadau strategol ar gyfer tai a chyflogaeth gael eu gwneud y tu allan i ardaloedd lle mae perygl llifogydd. Rydym yn cytuno y dylai cyfleusterau gwastraff gael eu nodi yn y rhestr ym mharagraff 5.29. Rydym hefyd yn eich cynghori i ystyried materion trawsffiniol wrth lunio Cynlluniau Datblygu Strategol. Er enghraifft, mae coridor yr A55 yn ffinio â Lloegr. Rydym yn cynghori y dylai unrhyw ganllawiau sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Datblygu Strategol nodi pwysigrwydd cydweithio ag awdurdodau cyfatebol yn Lloegr.

C27 A ydych yn cytuno y dylai partneriaeth rhwng awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol oruchwylio'r broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol?

Ydym Nac ydym



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Sylwadau:

Ydym. Bydd CNC yn gallu darparu partneriaethau gyda thystiolaeth a chyngor sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Adnoddau Naturiol mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol a'u hintegreiddio â chanlyniadau economaidd a chymdeithasol.

Byddem yn croesawu eglurhad o'r gweithdrefnau ymgynghori ar gyfer y Cynlluniau Datblygu Strategol arfaethedig ynghyd â'n swyddogaeth a'n statws ar y Panel ac yn ystod y broses ymgynghori.

Byddai'n ddefnyddiol egluro a chadarnhau y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu llywio gan Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

C28 A ydych yn cytuno y dylid paratoi Cynllun Datblygu Lleol llai manwl sy'n canolbwyntio ar faterion lleol eu harwyddocâd mewn ardaloedd lle ceir Cynllun Datblygu Strategol?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Mae Cynllun Datblygu Lleol cyfoes sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn darparu fframwaith i hwyluso'r datblygiad priodol yn y lle priodol a hefyd yn gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd ac adnoddau naturiol.

Rydym yn deall y bydd angen i'r Cynllun Datblygu Lleol barhau i gynnwys manylion ar gyfer dyraniad tir penodol sydd angen ei ystyried yn ofalus, felly nid ydym yn sicr am fanteision model llai manwl lle mae Cynllun Datblygu Strategol ar waith. O ganlyniad, byddai CNC yn ffafrio model Cynllun Datblygu Lleol cyson ledled Cymru ynghyd â mesurau i sicrhau bod gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol gynlluniau amserol a chyfoes.

Bydd angen i Fil Cynllunio (Cymru) wneud darpariaeth ddeddfwriaethol i Gynlluniau Datblygu Lleol newydd roi sylw i, neu ystyried y polisi cenedlaethol ar adnoddau naturiol a'r dull o reoli adnoddau naturiol sy'n seiliedig ar ardaloedd.

Gwella'r Ddarpariaeth Leol

C29 A ydych yn cytuno â'r elfennau hanfodol a nodwyd ar gyfer gwasanaeth cynllunio da yn Atodiad A?

Ydym Nac ydym



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Sylwadau:

Fel y gwyddoch, Awdurdodau Cynllunio Lleol a/neu Weinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniadau, a ni sy'n eu cynghori ar faterion amgylcheddol. Nid ydym yn credu bod gennym 'bŵer' dros Awdurdodau Cynllunio Lleol; nhw sy'n gyfrifol am wneud penderfyniad ar ôl pwysu a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys ein cyngor ni. Yn gyntaf, mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol benderfynu a oes angen ymgynghori â ni o gwbl ynglŷn â rhai ceisiadau. Byddem yn ddiolchgar pe bai unrhyw gyngor a chanllawiau yn y dyfodol yn nodi hyn yn glir.

Mae CNC yn croesawu'r newid i sefydlu fframwaith perfformiad cyffredin a phwyslais ar lunio Cynlluniau Datblygu Lleol. Bydd hyn yn helpu i wella'r fframwaith strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn gwella eglurder, sicrwydd a chysondeb ar gyfer penderfynwyr.

Rydym yn nodi'r cyfeiriad at ymgynghoreion statudol yn darparu 'ymatebion o sylwedd'. Byddem yn croesawu trafodaeth gynnar â swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn deall cwmpas a diffiniad 'ymateb o sylwedd' a goblygiadau posibl ar gyfer darparu ein cyngor i'r system gynllunio.

Mae'r dangosyddion cychwynnol yn Atodiad A yn fan cychwyn da, ond byddai rhagor o bwyslais ar ganlyniadau yn ogystal ag allbynnau yn eu gwella.

Paragraff 6.13 ac Atodiad A - rydym yn nodi y bydd angen i ymgynghoreion statudol lunio adroddiad monitro blynyddol. Byddem yn croesawu'r cyfle i drafod beth fydd hyn yn ei olygu yn gynnar yn y broses. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn sefydlu ein systemau yn briodol er mwyn casglu'r wybodaeth ofynnol. Byddem yn gallu adrodd ar y dangosyddion yn Atodiad A ar sail ein systemau presennol. Byddai'n ddefnyddiol egluro'r berthynas rhwng y broses hon a'r broses archwilio ar gyfer dangosyddion sy'n deillio o Fil Cenedlaethau'r Dyfodol.

Hoffem bwysleisio bod y Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu presennol yn nodi bod gan ymgynghoreion statudol 14 diwrnod i ymateb i geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, mae gan CNC gytundebau gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol ledled Cymru sy'n golygu bod gennym 21 diwrnod i ymateb. Felly, rydym yn ffafrio trefn lle mae'r dangosydd yn seiliedig ar ba safon bynnag sydd wedi'i gytuno'n lleol â'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Byddem yn croesawu ystyriaeth bellach o'r broses o olrhain cynllunio a thrwyddedu amgylcheddol yn gyfochrog er mwyn sefydlu'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn briodol.

C30 A ydych yn cytuno y dylai pob awdurdod cynllunio lleol lunio a chyhoeddi adroddiad perfformiad blynyddol yn unol â safonau y cytunwyd arnynt?

Ydym Nac ydym



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Sylwadau:
Ydym

C31 Os ystyrir bod awdurdod cynllunio lleol yn perfformio'n wael, a ydych yn cytuno y dylai fod opsiwn i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sylweddol i Weinidogion Cymru?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylw i'w wneud ar fanteision y cynnig hwn. Fodd bynnag, byddem yn croesawu cyfle i drafod ac ystyried y goblygiadau posibl i Cyfoeth Naturiol Cymru o ystyried ein swyddogaeth fel prif gynghorydd i'r Llywodraeth ar faterion amgylcheddol os yw ceisiadau'n cael eu cyflwyno yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.

C32 A ydych yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru allu ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Ydym, yn enwedig os yw paratoi cynllun ar y cyd yn gallu darparu fframwaith strategol i ddatrys gwrthdaro rhwng dyraniad tir a gallu'r amgylchedd i ymdopi â newid mewn perthynas ag, er enghraifft, perygl llifogydd, adnoddau dŵr neu



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

safleoedd Natura 2000.

C33 A ydych yn cytuno y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynllunio ar gyfer cyfnod o 15 mlynedd ymlaen llaw o leiaf, y dylent gynnwys dyddiad dod i ben penodol ac na fyddant yn gynlluniau datblygu gweithredol ar ôl y dyddiad hwnnw?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Ydym, mae'n rhoi cyd-destun hirdymor i'r broses o wneud penderfyniadau yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Dylai amserlen y dyfodol gydymffurfio â'r cynigion a amlinellir ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol.

C34 A ydych yn cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda chynghorau tref a chymuned i lunio cynlluniau lleoedd y gellir eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio ategol?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Gall Cynlluniau Lleoedd helpu i ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gymuned ac ychwanegu tystiolaeth a gwybodaeth leol at y broses ehangach o lunio polisiâu a gwneud penderfyniadau ynglŷn â chynllunio defnydd tir a rheoli adnoddau naturiol a chynlluniau cymunedol ehangach ar sail ardaloedd yng nghyd-destun Cynlluniau Datblygu Integredig Sengl. Bydd y cynlluniau peilot arfaethedig yn helpu i egluro'r statws, y sylfaen dystiolaeth, y broses, y berthynas rhwng cynlluniau a phrosesau eraill, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, a swyddogaeth ymgylgoreion statudol fel CNC. Bydd y Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio arfaethedig yn gwneud cyfraniad allweddol at helpu i sicrhau bod gan Gyngorau Tref a Chymuned y sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen i lunio cynlluniau lleoedd.

C35 Os yw cynnig datblygu yn cyd-fynd â dyraniad mewn cynllun datblygu a fabwysiadwyd, a ydych yn cytuno y dylid cyflwyno proses ceisiadau cynllunio newydd, er mwyn sicrhau mai dim ond manylion megis dyluniad a chynllun y datblygiad a gaiff eu hystyried?

Ydym Nac ydym



Sylwadau:

Er gwaetha'r ffaith fod cynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, y Cynllun Datblygu Strategol a'r Cynllun Datblygu Lleol ar ddechrau'r broses rheoli datblygiad yn gallu gwella sicrwydd ynglŷn ag effaith dyraniad arfaethedig, mae'n bosibl na fydd hyn yn ystyried yn ddigonol yr amrywiaeth o asesiadau, neu gysylltiadau â phrosesau caniatâd cysylltiedig eraill a fyddai'n berthnasol i gais cynllunio amlinellol. Yn ogystal, er y byddai cais amlinellol yn ddilys am 3 blynedd, gallai dyraniad mewn Cynllun Datblygu Lleol fod ar waith am hyd at 15 mlynedd, a gallai tystiolaeth amgylcheddol a darpariaethau polisi a deddfwriaethol ehangach fod wedi newid yn y cyfnod hwnnw.

Os yw'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu, bydd yn bwysig cynnwys digon o fanylion mewn dyraniad cychwynnol. Byddai angen i hyn gynnwys manylion ar barthau datblygu mewn dyraniadau mwy. Byddai hyn yn ein helpu i roi cyngor ar gynllun mwyaf priodol ar gyfer safle. Er enghraifft, byddem yn ceisio sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau sy'n agored iawn i berygl (er enghraifft, tai) wedi'u lleoli mewn ardaloedd o'r dyraniad arfaethedig nad ydynt mewn perygl o lifogydd. Os nad oes modd mynd i'r afael â materion o'r fath yn y cyfnod dyrannu, mae'n bosibl na fydd ceisiadau cynllunio a gyflwynir wedyn yn gallu cydymffurfio â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, fel TAN15.

Byddem hefyd yn cwestiynu sut yr ymdrinnir â dyraniadau o'r fath pan ddaw gwybodaeth newydd i'r amlwg yn y cyfnod rhwng safle yn cael ei ddyrannu a chyflwyno cais cynllunio. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn para pymtheg mlynedd. Er enghraifft, os yw modelu hydrologig newydd yn dangos bod safle dynodedig mewn perygl o lifogydd, ac nad oedd hynny'n wir yn y gorffennol, sut bydd y cais cynllunio yn cael ei drin? Gall adnoddau dŵr fod yn broblem gyda threigl amser oherwydd effaith gronnis datblygiad.

Mae CNC yn nodi'r ymgynghoriad arfaethedig ar opsiynau codi tâl ar gyfer cyngor cyn cyflwyno cais - rydym wrthi'n ystyried ein hopsiynau ar gyfer codi tâl am gyngor anstatudol, a byddwn yn awyddus i gyfrannu at y broses ymgynghori maes o law.

Yn ogystal, mae'n bosibl bod yr amser wedi dod i ystyried opsiynau ehangach ar gyfer ariannu gwelliannau amgylcheddol, gan gynnwys y mater o fondiau amgylcheddol fel y nodwyd yn argymhellion 87-89 o'r Adroddiad i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Cyngori Annibynnol, 'Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol'.

Rydym yn nodi bod paragraff 6.76 o'r ddogfen ymgynghori (sy'n cyfeirio at Adran 14 o'r Bil) yn galluogi Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i CNC "ymateb i'r ymgynghoriad mewn modd penodol ac o fewn amser penodol, ac adrodd i Weinidogion Cymru ar eu cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion o'r fath". Byddem yn croesawu trafodaeth ar gwmpas a goblygiadau ymarferol y cynnig hwn.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

C36 A ydych yn cefnogi'r cynnig i ganiatáu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio lleol i beidio â chofrestru cais cynllunio?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Byddem yn dymuno egluro ein swyddogaeth mewn sefyllfaoedd lle nad yw Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cofrestru cais ar sail astudiaeth neu arolwg y

byddem yn rhoi cyngor arnynt e.e. asesiadau o ganlyniadau llifogydd.

C37 A ddylid dileu'r gofyniad am ddatganiadau dylunio a mynediad gorfodol?

Dylid Na ddylid

Sylwadau:

Dim sylw

C38 A ddylid dileu'r gofyniad i hysbysebu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau penodol mewn papur newydd lleol?

Dylid Na ddylid

Sylwadau:

Bydd CNC yn archwilio Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a Chytundebau Gwasanaeth ag Awdurdodau Cynllunio Lleol, a bydd y rhain yn cynnwys trefniadau ar gyfer ymgynghori â CNC ar gynigion datblygu y cytunir arnynt. Nid oes gennym unrhyw sylw i'w wneud, felly, ar y prif gwestiwn a godwyd yma.

Fodd bynnag, o safbwynt y paragraffau yn ymwneud ag ymgynghoreion statudol ar dudalennau 76-78 o'r ddogfen ymgynghori, byddem yn croesawu cyfle i gyfarfod er mwyn trafod:

- cwmpas a diffiniad "ymateb o sylwedd" (Adran 27 o'r Bil drafft). Dylid cynnwys hyn yn y Bil yn y lle cyntaf.**
- unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Adran 15 o'r Bil, yn enwedig deddfwriaeth ynglŷn â sut y dylai ymgynghoreion statudol ymateb i geisiadau am gyngor cyn cyflwyno cais.**

C39 A ddylai fod unrhyw amrywiad lleol o fewn cynllun dirprwyo cenedlaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau?

Dylai Na ddylai



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Sylwadau:

Mae CNC yn cefnogi'r egwyddor o gynllun dirprwyo cenedlaethol - bydd hyn yn cyflwyno rhagor o sicrwydd a chysondeb i'r broses rheoli datblygiadau.

C40 A ydych yn cytuno y dylid cyfyngu mân newid perthnasol i "newid y mae ei faint a'i natur yn arwain at ddatblygiad nad yw'n sylweddol wahanol i'r datblygiad a gymeradwywyd"?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Rydym yn cytuno â'r cynigion i gyflwyno trefn newydd sy'n caniatáu i ymgeiswyr adnewyddu caniatâd cynllunio. Rydym yn croesawu'r bwriad i wneud gofynion ceisiadau yn gymesur â'r datblygiad arfaethedig. Dylai gofynion ceisiadau hefyd bod yn gymesur â'r risg i'r datblygiad arfaethedig neu'r risg sy'n deillio ohono mewn achosion lle mae gwybodaeth neu ddata newydd am risgiau ar gael.

C41 A ydych yn cytuno bod y cynigion yn sicrhau cydbwysedd rhwng yr

angen i warchod tir a ddefnyddir fel Meysydd Tref a Phentref a rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Byddai'n ddefnyddiol egluro beth a olygir gan 'y broses gynllunio statudol'. Rydym yn rhagdybio bod proses y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys mecanwaith a fframwaith i ystyried manteision tir a nodir yn Feysydd Tref a Phentref neu a neilltuir ar gyfer datblygiad.

C42 A ydych yn cytuno y bydd y cynigion yn lleihau'r oedi o fewn y system gorfodi cynllunio?

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Ydym

C43 A ydych yn cytuno â chyflwyno hysbysiadau atal dros dro fel rhan o'r system gorfodi cynllunio yng Nghymru?



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Ydym Nac ydym

Sylwadau:

Nid wyf am i fy enw / cyfeiriad gael ei gyhoeddi gyda fy ymateb (ticiwch y blwch)

Sut i Ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau mewn unrhyw un o'r ffurfiau a ganlyn:

E-bost

Llenwch y ffurflen ymateb ymgynghori a'i hanfon i:
planconsultations-d@wales.gsi.gov.uk

(Dylech gynnwys 'Cynllunio Cadarnhaol – WG20088' yn y llinell pwnc).

Post

Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon at:

**Tîm y Bil Cynllunio
Is-adran Gynllunio
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ**

Gwybodaeth ychwanegol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, e-bostiwch:
planconsultations-d@wales.gsi.gov.uk neu
ffoniwch: 0300 0603300 neu 08450103300

ATODIAD 2

Amcanion strategol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ymgysylltu â'r system gynllunio

Rydym yn cynnig dull gweithredu newydd sy'n rhoi rhagor o bwyslais ar weithio ar lefel strategol a mabwysiadu diwylliant seiliedig ar atebion. Mae'r argymhellion strategol sydd wedi'u hargymhell a'u cymeradwyo gan ein bwrdd fel a ganlyn:



(i) Egwyddorion

Byddwn yn:

- Ymgysylltu mewn ffordd ragweithiol â'r system gynllunio – dyma ffordd bwysig o sicrhau datblygu cynaliadwy, rheoli adnoddau naturiol a sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer treftadaeth naturiol Cymru
- Ymgysylltu mewn ffordd ragweithiol â mentrau adfywio a datblygiad economaidd – gan sicrhau bod mentrau yn ystyried rhwystrau amgylcheddol a rheoli adnoddau naturiol a bod datblygiadau canlyniadol yn gynaliadwy
- Canolbwyntio ein hymdrechion ar ddarparu tystiolaeth a chyngor ar gynlluniau strategol a gofodol – gan sicrhau bod datblygiadau'n mynd rhagddynt mewn lleoliadau priodol a lleihau gwrthdaro yn y dyfodol ar lefel ceisiadau unigol
- Defnyddio'r un sylfaen dystiolaeth o safbwynt adnoddau naturiol ledled CNC – gan sicrhau cysondeb wrth roi cyngor
- Hyrwyddo ymgysylltu cynnar â datblygwyr – er mwyn nodi a dylanwadu ar unrhyw broblemau ac atebion creadigol o'r cychwyn cyntaf.
- Sicrhau bod ein cyngor statudol yn farn wedi'i phwyso a'i mesur sy'n rhoi ystyriaeth ddyledus i'n holl ddibenion, dyletswyddau a chanllawiau perthnasol - er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol. Mae'n rhaid cydymffurfio â dyletswyddau penodol lle bo hynny'n berthnasol
- Darparu cyngor amgylcheddol gwrthrychol ac arbenigol sy'n seiliedig ar wybodaeth dda am leoedd er mwyn cynorthwyo penderfynwyr i gyflawni eu dyletswyddau. Wrth sicrhau cydbwysedd wrth gyflawni eu dyletswyddau, rydym yn cydnabod y gall penderfynwyr ddod i gasgliad gwahanol i CNC o safbwynt pa mor dderbyniol yw unrhyw risg sy'n anodd cael gwared arni neu effaith datblygiad penodol.

(ii) Dulliau gweithio

Byddwn yn:

- Sicrhau bod ein hymatebion mor glir, diamwys a chyson â phosibl
- Sicrhau bod ein prosesau mewnol ar gyfer darparu cyngor cynllunio statudol yn cael eu llunio a'u gweithredu mewn ffordd sy'n atal gwrthdaro



buddiannau (er enghraifft, os mai ni yw'r ymgeisydd neu'r tiffeddiannwr yn ogystal â'r ymgynghorai statudol)

- Sicrhau bod ein penderfyniadau yn dryloyw drwy allu egluro'r rhesymau am ein cyngor, a thrwy gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â phenderfyniadau mewn achosion dadleuol
- Mabwysiadu dull gweithredu cadarnhaol. Mae hyn yn golygu ceisio dod o hyd i'r ateb cywir ar gyfer yr amgylchedd a'r datblygwr. Mae'n golygu osgoi gwrthwynebu os oes modd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen i ni wrthwynebu os nad oes modd dod o hyd i'r ateb cywir ar gyfer yr amgylchedd, naill ai oherwydd bod yr ymgeisydd yn anfodlon neu'n methu addasu'r cynigion, neu oherwydd bod y datblygiad wedi'i leoli yn y lle anghywir. Byddai angen i ni wrthwynebu os yw'r effaith yn codi materion o bwysigrwydd cenedlaethol.
- Defnyddio dull sy'n seiliedig ar risgiau ar gyfer ein gwaith ymatebol ac wrth ymateb i geisiadau unigol. Mae hyn yn golygu defnyddio ein hadnoddau ar gyfer datblygiadau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ac sy'n effeithio ar safleoedd/ardaloedd pwysig a sensitif
- Defnyddio cyngor sefydlog lle bo hynny'n briodol gan ei fod yn werthfawr wrth ymateb i geisiadau llai cymhleth ac yn gallu lleihau llwythi gwaith; fodd bynnag, nid yw hyn yn disodli'r angen am gyngor pwrpasol sy'n seiliedig ar leoedd, yn enwedig mewn achosion mwy cymhleth
- Codi tâl am gyngor anstatudol (e.e. cyn cyflwyno cais) – lle gallwn ddangos y bydd hyn yn gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid a chanlyniadau amgylcheddol
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r Arolygiaeth Gynllunio i sicrhau canlyniadau ar y cyd, mentrau hyfforddi ac er mwyn rheoli'r ymgynghoriadau sy'n cael eu hanfon i CNC
- Gweithio gyda datblygwyr a'u grwpiau sector i egluro swyddogaeth CNC (ynglŷn â darparu cyngor, nid gwneud penderfyniad); nodi anghenion ac atebion tystiolaeth cyffredin
- Gweithio gydag ymgynghoreion statudol eraill fel Cadw i egluro ein swyddogaethau o safbwynt cynllunio a rhannu tystiolaeth

(iii) Canlyniadau:

- Mae datblygwyr yn gofyn am, ac yn derbyn ein cyngor yn gynnar yn y broses er mwyn dylanwadu ar leoliad a chynllun datblygiadau newydd, gan hyrwyddo datblygiadau sy'n osgoi effeithiau negyddol, yn cydymffurfio â chyfyngiadau amgylcheddol ac yn gynaliadwy



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

- Mae penderfynwyr yn ystyried adnoddau naturiol o ganlyniad i'n cyngor clir sydd wedi'i dargedu'n dda, gan warchod yr adnoddau hyn ac yn sicrhau datblygu cynaliadwy
- Mae cyfleoedd i wella'r amgylchedd yn cael eu nodi a'u cyflawni drwy'r system gynllunio

- Cysylltiadau a bodlonrwydd cwsmeriaid gwell oherwydd ansawdd ac eglurder ein hymatebion a'r ffaith ein bod yn darparu'r wybodaeth gywir ar yr amser cywir
- Mae ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid yn deall swyddogaeth CNC yn y system gynllunio
- Gwella cydymffurfiaeth â therfynau amser ar gyfer ymatebion